**Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion**

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0331 (HSS) a gyhoeddwyd gan Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**At Christine Gwyther**

Cytunais, yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 29 Mehefin i ysgrifennu atoch i egluro cynnydd Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, Caerfyrddin, hyd yn hyn.

Yng nghyfarfod cyntaf y bwrdd prosiect, a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf, deallaf i Gomisiwn Iechyd Cymru gael gwybod bod yr amserlen ar gyfer darparu uned newydd wedi cael ei adolygu ac y disgwyliwyd iddo nawr fod yn barod erbyn mis Medi 2006. Mae Comisiwn Iechyd Cymru yn gweithio i sicrhau gostyngiad yn yr amserlen newydd ac i weld os y gellir cyflawni'r amserlen flaenorol a gytunwyd, sef Rhagfyr 2005. Yn y cyfamser, mae Comisiwn Iechyd Cymru yn cydweithio i gefnogi darparu'r uned dialysis newydd. Gwnaed ymdrech benodol i sicrhau bod cleifion a chynrychiolwyr o Gynghreiriau Cleifion Arennau Cymru yn cael eu cynnwys yn y bwrdd prosiect.

Er i'r system ddŵr beri cryn bryder, bydd gennych hefyd ddiddordeb i wybod efallai, yn dilyn archwiliad trylwyr ym mis Mai 2005, ei bod wedi gwella'n sylweddol.

Gobeithiaf bod hyn o gymorth i chi.